# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru – Ein Strategaeth (2016-2020)** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 19.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ashleigh Dunn** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn / Hannah Dawson |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | 1. Dylid cymeradwyo'r strategaeth 'Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru'.<br>2. Dylid nodi y bydd diweddariadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo eu hystyried. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:**<br>Ddim yn uniongyrchol berthnasol<br><br>**Effaith ar yr economi:**<br>Ddim yn uniongyrchol berthnasol<br><br>**Effaith ar y gymuned:**<br>Ddim yn uniongyrchol berthnasol<br><br>**Effaith ar wybodaeth:**<br>Ddim yn uniongyrchol berthnasol |

## Mater

1. Diben y papur hwn yw cymeradwyo ‘Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru – Ein Strategaeth 2016-2020’. Diben y strategaeth yw ein cynorthwyo i gyflawni Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru a’n huchelgais, sef bod orau yn y byd am reoli adnoddau naturiol. I wneud hynny, mae’n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ddod yn weithle gwych lle mae pobl yn tyfu, er mwyn i bobl a thimau allu rhagori a chyflawni busnes yn well yn barhaus.

## Cefndir

2. Un o’r meysydd trawsnewid ar ein Map Ffordd yw datblygu pobl a thimau. Hyd yma, nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru strategaeth drosfwaol ar gyfer datblygu sefydliadol a rheoli pobl.
3. Felly, mae’r strategaeth dan sylw wedi’i datblygu gan y grŵp trawsnewid hwn, gyda phobl o bob maes a lefel yn Cyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â’r Cyfarwyddiaethau. Darparodd Arolwg Pobl 2015 dystiolaeth sylweddol i hybu blaenoriaethau ac uchelgais y strategaeth hon, ochr yn ochr â chyfraniadau ehangach.

## Asesiad

### Strategaeth

4. Mae’r strategaeth ynghlwm yn **Atodiad 1**. O safbwynt **datblygu sefydliadol**, canolbwyntir ar dair agwedd ar drawsnewid sefydliadol:
    - pwrpas a chyfeiriad
    - arweinyddiaeth
    - diwylliant.

   Mae wyth maes â blaenoriaeth wedi’u nodi er mwyn symud y materion hyn sy’n ymwneud â thrawsnewid yn eu blaen. Mae cyfleoedd a heriau sylweddol ynghlwm wrth bob un o’r meysydd, os ydym am wireddu uchelgais pob maes a chyflawni’r nod cyffredinol. Os caiff yr wyth maes eu hymgorffori’n wirioneddol yn y sefydliad, maent yn ffordd rymus iawn o ailbennu ffocws Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth i ni gydnabod mai pobl Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n creu gwerth drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a’n galluogi i fyw’n ddarbodus.
5. Mae ein blaenoriaethau o safbwynt **rheoli pobl** wedi’u nodi hefyd. Maent yn ategu’r blaenoriaethau ar gyfer datblygu sefydliadol ac yn cwblhau’r prif flaenoriaethau o ran pontio ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei greu.

### Gweithredu

6. Ar ôl cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd, bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu drwy ystod o wahanol ddulliau, gan gynnwys y canlynol:

(i) **Prosesau cynllunio:** mae camau wedi'u cymryd eisoes i ymgorffori hynny yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016/17, yn ein Cynlluniau Cyflawni i Gyfarwyddiaethau ar gyfer 2016/17 ac, o edrych i'r dyfodol, yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022
(ii) **Negeseuon i weithwyr:** bydd negeseuon allweddol yn cael eu datblygu er mwyn i'r strategaeth gael ei lansio gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a chan y Fforwm Partneriaeth
(iii) **Dangos sut i'w gwireddu:** rhannu cyfres o enghreifftiau, gan bawb yn y grŵp trawsnewid ac eraill, a fydd maes o law'n dangos y newidiadau y mae pobl am eu gweld a'r hyn y maent yn ei wneud i wireddu'r strategaeth
(iv) **Cyfarwyddiaethau:** gan ddefnyddio eu Cynllun Cyflawni, eu hamcanion rheoli perfformiad a dulliau eraill, bydd Cyfarwyddiaethau yn ystyried beth y mae'r blaenoriaethau hyn yn ei olygu iddynt hwy ac, wrth iddynt gyflawni eu busnes, sut y byddant yn ymgorffori nodau'r strategaeth hon.

**Yr Arolwg Pobl:** bydd yr Arolwg Pobl yn rhoi cyfleoedd i gyfathrebu/atgoffa pobl ynghylch y strategaeth hon, yn ogystal â mesur cynnydd, cydnabod cyflawniadau a dwyn pobl i gyfrif.

**Adolygu**

7. Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru'n flynyddol, yn dilyn yr Arolwg Pobl, er mwyn diweddaru'r blaenoriaethau a rhoi'r manylion diweddaraf am gynnydd – diben hynny fydd sicrhau bod y strategaeth yn parhau'n fyw ac yn ystyrlon i bobl. Bydd y diweddariadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo eu hystyried.

**Argymhelliad/Argymhellion**

8. Mae'r strategaeth wedi cael ei hystyried gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thrawsnewid y Bwrdd, sy'n cefnogi'r strategaeth yn llawn.

(i) Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r strategaeth 'Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru (2016-20)'.
(ii) Gofynnir i'r Bwrdd nodi y bydd diweddariadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo eu trafod.

**Prif risgiau**

9. Os na fyddwn yn cydnabod pwysigrwydd yr agenda drawsnewid yng nghyswllt pobl, a nodir yn y strategaeth hon, ni fyddwn yn gallu gwneud yn fawr o'r cyfle a gynigir i Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Goblygiadau ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

11. Mae'r strategaeth hon yn effeithio ar bob aelod o staff ac yn cynorthwyo'r sefydliad i symud ei strategaeth ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei blaen. Nid oes angen asesiad penodol o'r effaith ar gydraddoldeb.

**Mynegai i'r Atodiadau**

**Atodiad 1:** 'Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru – Ein Strategaeth (2016-20)'